Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dydd/Dyddiad: 13 Tachwedd 2013

Amser: 10:00 - 12:30 o'r gloch

Lleoliad: Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Swît Ceredigion

Yn bresennol:-

Carl Langley (Cadeirydd)	(CL)	Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro – Heddlu Dyfed-Powys
Helen Morgan- Howard (HMH)		Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Heddlu Dyfed-Powys
Claire Godden	(CG)	Ymgynghorydd Polisi, SCHTh
BJ		Gwasanaethau Dysgu a Datblygu – Heddlu Dyfed-Powys
MB		Ymgynghorydd Annibynnol
JJ		Ymgynghorydd Annibynnol
NH		Ymgynghorydd Annibynnol
BS		Ymgynghorydd Annibynnol
DT		Ymgynghorydd Annibynnol
NC		Ymgynghorydd Annibynnol
PS		Ymgynghorydd Annibynnol
PR		Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)

1. Ymddiheuriadau

NM	Ymgynghorydd Annibynnol
AH	Ymgynghorydd Annibynnol
HL	Ymgynghorydd Annibynnol
BH	Ymgynghorydd Annibynnol
SR	Ymgynghorydd Annibynnol

2. Cofnodion/Camau Gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2013 yn gofnod gwir a chywir.

Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol

Eitem 3 Dichonolrwydd cyflwyno cyfleuster Neges Testun ar gyfer riportio di-argyfwng.

Mae HMH wedi cyfarfod â PS, a mynychodd NM gyfarfod â Jeff Davies er mwyn mynd â hyn ymlaen a'i fwydo i mewn i waith y mae'r heddlu'n ei wneud o gwmpas hygyrchedd. Mae'r Swyddfa Gartref yn edrych ar gyflwyno cyfleuster neges destun 101 yn genedlaethol. Mae gan Heddlu Gwent system syml iawn, sef cael ffôn symudol yn y ganolfan gyswllt sydd ymlaen 24 awr y dydd a rhif a roddwyd i gymunedau byddar. Mae hyn i'w weld yn gweithio'n dda yng Ngwent.

Mae angen i'r grŵp benderfynu pa un ai a ddylwn ni gyflwyno'r un gwasanaeth â Gwent, neu aros am gyfleuster neges destun 101 y Swyddfa Gartref. Bydd HMH yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

Hysbysodd CL y grŵp eu bod yn gysylltiedig â nifer o brifysgolion ar hyn o bryd mewn perthynas â datblygu prosiectau TG amrywiol.

Eitem 9 - Cadeirydd newydd ar gyfer y grŵp hwn.

Gofynnodd HMH y grŵp i fynegi diddordeb ar gyfer rôl Cadeirydd ar gyfer y grŵp hwn. Cafwyd trafodaeth, a chytunodd y grŵp y byddai Nicky Herriot yn gadeirydd o'r cyfarfod nesaf ymlaen.

Trafododd y grŵp sut oeddent yn teimlo ynglŷn â chynnydd o ran materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad mewn blynyddoedd diweddar. Cytunodd y grŵp i roi adborth ynglŷn â hyn i Heddlu Dyfed-Powys. Yna, gellid ei gyflwyno i'r Informer ac unrhyw bapur arall perthnasol.

Cam Gweithredu:- Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i ddarparu adborth i Heddlu Dyfed-Powys ynglŷn â'r meysydd y maen nhw'n teimlo y bu cynnydd.

Eitem 11 – y Cynllun Gwarchod Cymdogaeth

Hysbysodd HMH y tîm adolygu Bro am sylwadau JJ mewn perthynas ag annog mwy o gynlluniau Gwarchod Cymdogaeth. Mae hi wedi gofyn i'r Uwch-arolygydd Westlake gysylltu ag ef.

Gofynnodd JJ sut oedd penderfyniadau ynglŷn â lleoliad camerâu teledu cylch cyfyng symudol yn cael eu gwneud.

Esboniodd CL i'r grŵp fod camerâu teledu cylch cyfyng symudol yn cael eu defnyddio i gwmpasu 4,000 milltir sgwâr o fewn Heddlu Dyfed-Powys, ac mae'r camerâu hyn yn cael eu defnyddio gan ddibynnu ble y mae'r materion dybryd. Trafodir materion penodol â Grŵp Tasgio'r Heddlu, ac maen nhw'n gwneud y penderfyniad ynglŷn â ble y dylid lleoli'r camerâu yn unol â blaenoriaethau cyfredol yr heddlu.

Cam Gweithredu:- Y Prif Arolygydd Westlake, Canolbwyntio ar y Dinesydd, i ffonio JJ a thrafod cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth.

Cam Gweithredu:- Y Prif Arolygydd Westlake i ddarparu rhestr o gynlluniau Gwarchod Cymdogaeth i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Eitem 6 – Diweddariad ar flaenoriaethau o gwmpas Iechyd Meddwl

I'w trafod o dan y prif Agenda.

Eitem 7 Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Pobl Ifainc – Model arfaethedig.

Mae aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi darparu manylion cyswllt grwpiau pobl ifainc i HMH. Rhyddhawyd yr eitem.

Eitem 8 - Cydraddoldeb Hiliol a Hiliaeth yng Nghymru

Mae HMH wedi anfon y ddolen ar gyfer adroddiad Cydraddoldeb Hiliol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012 at aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Gofynnodd NC am gopi caled o'r ddogfen hon gan nad oedd hi'n medru agor y ddolen.

Cam Gweithredu:- HMH i anfon copi o adroddiad Cydraddoldeb Hiliol Cymru drwy'r post at NC.

Taflenni Pegasus

Mae taflenni ynglŷn â'r Cynllun Pegasus hefyd wedi'i hanfon yn electronig at aelodau ynghyd â dolen i gael mynediad at gyflwyniad.

Eitem 9 – Defnydd yr Heddlu o Bwerau Stopio a Chwilio.

Gall HMH ddarparu cyflwyniadau ynglŷn â Stopio a Chwilio i grwpiau cymunedol.

Cam Gweithredu:- Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i ddarparu manylion cyswllt grwpiau cymunedol sydd eisiau derbyn cyflwyniad ynglŷn â stopio a chwilio. Eitem 10 Ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig.

Mae HMH wedi derbyn adborth gan aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig. Rhyddhawyd yr eitem.

Eitem 11 Unrhyw Fusnes Arall

Ymgyrch Nutmeg

Mae'r Prif Gwnstabl Dros Dro Roberts wedi gwirio'r gofrestr troseddwyr rhyw fel y trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Diolchwyd yr aelodau am godi'r mater pwysig hwn. Bellach, mae unigolion hynny a oedd wedi cael rhyw dan oed wedi'u dileu o'r gofrestr troseddwyr rhyw os mai dyna oedd eu hunig drosedd.
Rhyddhawyd yr eitem.

Camau gweithredu a diweddariadau o'r cyfarfod hwn.

3. Diweddariad ynglŷn â'r panel craffu ar warediadau y tu allan i'r llys.

Mae BS yn aelod newydd o'r panel. Darparodd BS ddiweddariad i'r grŵp. Dywedodd BS ei bod hi wedi sefydlu cysylltiadau pwysig trwy fynychu'r cyfarfod hwn. Trafododd y grŵp y defnydd o rybuddion, yn arbennig ar bobl ifainc nad ydynt yn deall oblygiadau derbyn rhybudd. Cytunwyd y dylai unigolyn dderbyn esboniad llawn bob tro ynglŷn â pham y maent yn derbyn rhybudd a'r hyn mae'n ei olygu iddynt er mwyn eu galluogi i wneud dewis gwybodus. Mae'r panel Craffu'n mynd â'r mater hwn ymlaen.

Awgrymodd MB y dylem ofyn i grwpiau ymgysylltu - 'beth yw eu canfyddiad nhw o rybudd?'.

Cam Gweithredu:- HMH i gael adborth o ddigwyddiadau pobl ifainc ynglŷn â'u canfyddiad nhw o rybudd.

Cam Gweithredu:- CL i wirio pa un ai a oes cyflwyniad mewn perthynas â rhybuddion yn cael ei roi mewn ysgolion, ac ar effeithiau hirdymor cael eich hun i helynt.

4 Pori Anghyfreithlon o ran Ceffylau Sipsiwn

Darparodd BS drosolwg i'r grŵp mewn perthynas â phori anghyfreithlon a'r materion sy'n deillio o hyn.

Mae BS wedi mynychu cyfarfodydd mewn perthynas â phori anghyfreithlon, ac un o'r materion a godwyd yw diffyg tir ar gyfer ceffylau i bori. Mae'r cyngor yn rhentu llawer o dir i'r gymuned Sipsi, ond mae hyn yn lleihau gan fod y tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ailddatblygu. Un o'r deilliannau o'r cyfarfod yw bod y cyngor sir yn mynd i fynd at berchnogion tir er mwyn ceisio cael mwy o dir, ac maent wedi cytuno i fod yn gyswllt rhwng y ffermwyr a'r gymuned Sipsi.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid wedi cytuno i sglodi ceffylau am ddim, felly os yw ceffyl yn cael ei ddal, bydd yr heddlu'n gwybod yn syth pwy yw ei berchennog. Os nad yw'r ceffylau wedi'u sglodi, yna bydd yn rhaid i'r heddlu fynd trwy'r broses atafaelu.

Hysbysodd BS y grŵp fod ei rôl hi'n newid gan eu bod wedi derbyn arian o Gronfa'r Lotri Genedlaethol. O hyn ymlaen, bydd ei rôl yn cynnwys Ceredigion a Phowys, yn ogystal â Sir Benfro.

.

5. Stopio a Chwilio

Darparodd BJ drosolwg i'r grŵp mewn perthynas â pham y mae'r heddlu'n defnyddio'r weithdrefn Stopio a Chwilio. Hefyd, rhoddodd hanes y broses stopio a chwilio o fewn yr heddlu yn gryno.

Dosbarthodd BJ ddogfen i'r grŵp sy'n amlinellu'r meysydd a fydd yn derbyn sylw yn ystod yr Hyfforddiant Stopio a Chwilio, ac esboniodd pob pwynt i'r grŵp. (copi'n atodedig) Bydd hyn yn galluogi aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i wneud penderfyniad gwybodus o fewn eu rôl o ran craffu ar y weithdrefn Stopio a Chwilio.

5.1Y Broses o Graffu ar y Broses Stopio a Chwilio

Gwahoddodd CG aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i gymryd rhan yn y broses o Graffu ar y weithdrefn Stopio a Chwilio. Mae'n ofynnol i'r heddlu wneud hyn o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol ac o dan godau ymarfer. Mae dogfen wedi'i dosbarthu i'r grŵp yn eu hysbysu am y broses o graffu ar y weithdrefn Stopio a Chwilio.

Cytunodd y grŵp i graffu ar gofnodion stopio a chwilio. Un awgrym oedd ymgymryd â gwaith craffu fore'r cyfarfod Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Cam Gweithredu:- HMH/CG i drefnu cyfarfodydd craffu ar y broses Stopio a Chwilio ar gyfer aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Cam Gweithredu: Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol sydd â diddordeb mewn ymuno â'r panel craffu ar Stopio a Chwilio i fynegi eu diddordeb wrth HMH.

6. Iechyd Meddwl – Cynnig i dreialu gwasanaeth brysbennu

Darparodd HMH drosolwg i'r grŵp o'r gwasanaeth Brysbennu iechyd meddwl arfaethedig. Bydd ymarferwyr Iechyd Meddwl a swyddogion heddlu'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwell gwasanaeth i bobl sydd mewn trallod meddwl. Rydym yn datblygu partneriaeth lle y bydd swyddogion a nyrsys yn rhannu gwybodaeth ac yn gwneud penderfyniadau ac yn rheoli risgiau ar y cyd. Bydd yr uned hon yn cael ei threialu yn ystod y ddau benwythnos cyn Nadolig 2013.

7. Unrhyw Fusnes Arall

Hoffai MB gael diweddariad ynglŷn â'r Platfform Rhannu Gwybodaeth ar gyfer troseddau casineb yn y cyfarfod nesaf.

Cytunwyd y bydd y grŵp yn cyfarfod ar sail chwarterol.

8. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Cytunodd y grŵp i gynnal y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2014.